

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 15 Ionawr 2019 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yr hwyr.

PRESENNOL

Daniel Williams

Gruff John

Casi Roberts

Mei Gwilym

Eifion Williams

Nerys John

Wynne Barton - Swyddog Ariannol

Gareth Griffiths - Cynghorydd Sir

1.0**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**

Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn newydd dda i bawb a chroesawu hwynt i gyfarfod mis Ionawr y Cyngor. Cafwyd Ymddiheuriadau gan Iestyn Harris, Iwan Huws, Einir Coates ac Aled Emyr. Croesawyd Emyr Gareth o Gyngor Gwynedd i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynllun atal llifogydd a'r Ffordd Lan y Môr.

1.1

Dywedodd Emyr Gareth bod Cyngor Gwynedd bellach wedi cymeradwy "matchfunding" ar gyfer y cynllun ar gyfer gwarchod Lan y Môr oddi wrth y môr gyda wal o'r Cae Chware hyd at y Marina. Roedd y cyfarfod yn y Felin Sgwrsio wedi bod yn un cadarnhaol. Roedd ychydig o bwyntiau wedi codi ynglŷn a pharcio ar y ffordd. Roedd yr ardal yn gallu cyflwyno mwy na digon o lefydd parcio ar gyfer y trigolion gan gymryd bod dau gerbyd i bob tŷ, er hynny'r prif wrthwynebiad oedd cerbydau yn parcio ochr y Clwb hwylio ac yn rhwystro golygfa deiliaid y tai. Mae'r cynllun yn cyflwyno 36 lleoliad parcio ychwanegol.

Barn y Cyngor Cymuned oedd bod gwir angen y safleoedd parcio, cyfeiriodd y Cyngor nad oedd llawer o lefydd parcio fin nos oherwydd bod cerbydau o'r strydoedd cyfagos yn parcio yno hefyd ynghyd a chwsmeriaid y busnesau lleol.

Ystyriwyd os bydda'i gallu i gyflwyno gwaharddiad parcio ar gerbydau uchel a chaniatáu moduron. Nid oedd y Cynghorydd Eifion Williams yn meddwl bod hyn y bosib. Y Swyddog i wneud ymholiadau a'r adran priffyrdd.

Nid yw penderfyniad wedi ei wneud eto ynglŷn a gwneuthuriad y wal ond gofynnwyd a byddai modd cael wal debyg i wal y cei, cerrig calchfaen gyda llechi ar y top.

Roedd y Cyngor yn bryderus ar gyflwr y ddwy slipway a'r stepiau oherwydd nad oedd y rhain wedi eu cynnwys yn y cynllun. Esboniodd y Swyddog nad oedd y gwaith yma yn hanfodol ar gyfer atal llifogydd ac nad oedd sicrwydd y byddai cynnwys y gwaith hwn fel rhan o'r cynllun. Oherwydd bod angen trwydded forwrol i wneud gwaith o lefel llif y dwr a gallai hyn ddal y cynllun yn ei ôl. Dywedodd y Swyddog ei fod yn barod i drafod gyda'r adran forwrol ar y mater.

Mae Gŵyl y Felin yn cymryd lle ar Lan y Môr yn flynyddol a byddai o fudd petai swyddogion yr Ŵyl yn rhoi eu sylwadau ar y cynllun a nodi unrhyw faterion sydd yn achosi consyrn

Emyr Gareth**Emyr Gareth**

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>iddynt. Y Cyngorydd Sir am gysylltu â phwyllgor yr Ŵyl i drafod y cynllun ac yna i anfon eu barn ymlaen at swyddogion y cynllun. Roedd angen trafod trydan a dŵr ar gyfer yr achlysur.</p> <p>Nid oedd unrhyw fwriad i symud y ciosg ffôn.</p> <p>Trafodwyd giatiau a mynedfeydd yn y waliau, llif dwr o gyffordd Snowdon street a'r sustem draenio yno fydd yn cynnwys 4 gully.</p> <p>Yr amserlen hyd yma yw gwneud cais grant i Lywodraeth Cymru'r mis nesaf a gobeithir dechrau yn yr Haf ond byddai'r gwaith yn cymryd ystyriaeth o Gŵyl y Felin</p> <p>Bydd rhaid i rhai o'r giatiau gael eu cau gan aelodau o'r Cyngor Cymuned ond bydd un ar draws y ffordd yn gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd ond bydd rhaid cael cynllun wrth gefn rhag ofn bod ardaloedd eraill yn cael blaenoriaeth.</p> <p>Eglurwyd bod dwr wyneb yn mynd i'r system garffosiaeth a bod dim llwybr i ddwr ddod o'r mor i fyny drwy y gulleys yn y lon.</p>	
1.3	<p>Eglurodd y Cadeirydd bod y Cyngorydd Mei Gwilym wedi rhoi datganiad ysgrifenedig yn egluro ei absenoldeb o'r Cyngor a'i fod bellach wedi datrys y sefyllfa a'i fod yn gallu mynychu o hyn ymlaen. Derbyniwyd yr eglurhad ôl-weithredol.</p>	
1.4	<p>Cafwyd llythyr yn ceisio am sedd wag ar y Cyngor gan Eiliw Williams oedd yn gymwys i eistedd ar y Cyngor. Derbyniwyd y cais a datgan eu croeso iddi.</p>	<p>CLERC- Ebst wedi ei anfon at Eiliw.</p>
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	<p>Rhoddodd y Cyngorydd Sir y diweddariad a'r cynllun i gyflwyno llinellau melyn ar y ffordd lawr i'r Hen Gei Llechi. Bellach y bwriad yw rhoi llinellau melyn yn gwahardd pario ar draws y gyffordd i'r bont yn unig. Roedd wedi siarad gyda'r busnesau ac roedd am wneud trefniadau i siarad â phobl berthnasol o fewn Hen Gei Llechi ar y mater.</p> <p>Dywedodd hefyd bod cyn Gadeirydd y Cyngor wedi mynegi pryder bod bysiau ddim yn stopio i bobl yn y Safle Bws ar draws y ffordd i Gerrig yr afon. Roedd hyn o ganlyniad nad oedd golau o fewn y safle a bod gyrwyr y bysiau ddim yn gweld bod pobl yn aros yno.</p> <p>Penderfynwyd bod cyllideb o £200 ar gael i osod golau solar yno.</p> <p>Wrth drafod y mater hwn dywedodd y Cyngorydd Nerys John bod tyfiant wedi cael ei dorri yn ddiweddar ar ymylon y ffyrdd ond yn anffodus mae rhan o'r ffordd ger pen y bryn</p>	<p>GG</p> <p>DW/EW</p>

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>heb ei dorri a phan ddaw'r dail i'r coed bydd golau stryd yn cael ei orchuddio. Y Clerc i anfon at Priffyrdd Cyngor Gwynedd.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd Sir bod cais cynllunio ar agenda'r Cyngor Cymuned a bod y cais hwn wedi ei nodi ganddo gyda'r Adran Gynllunio ac felly bydd yn gallu rhoi ei farn arno mewn pwyllgor.</p>	CLERC – y mater wedi ei anfon at Gwynedd. Ymateb wedi ei dderbyn Arolygwr y ffordd yn delio a'r mater
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	<p>Cyflwynodd y Swyddog Ariannol gwariant ac adroddiadau'r Cyngor ar gyfer mis Ionawr 2018. Derbyniwyd y gwariant ac adroddiadau. Cynigwyd ac eiliwyd fel rhai cywir.</p> <p>Derbyniwyd hefyd dogfen cymharu'r gyllideb drafft a'r gyllideb wirioneddol hyd at 31 Rhagfyr 2018. Dywedodd y Swyddog Ariannol bod newid wedi ei wneud i'r gyllideb drafft yn Mis Medi a bod popeth ar hyn o bryd yn rhedeg o fewn y gyllideb. Bydd cymhariaeth nesaf ym mis Mawrth 2019.</p>	
4.2	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol adroddiad DBO oedd yn foddhaol ac un unol a'r gofynion derbyniwyd a chymeradwywyd yr adroddiad gan y Cyngor.	
4.3	Trafodwyd y gyllideb drafft ar gyfer 2019 - 2020 a phenderfynwyd bod angen codi'r praesept. Bydd taliad ychwanegol o £4.80 y flwyddyn I bob tŷ yn pentref.	Ebost wedi ei anfon at CG.
4.4	Penderfynwyd bod y presept am y flwyddyn 2019 – 2020 i fod yn 40K.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Ionawr fel rhai cywir.	
6.0	NEUADD	
6.1	Oherwydd pwysau gwaith nid oedd Michael Hughes yn gallu cwblhau gwaith paentio'r neuadd. Bydd y gofalwr nawr yn ymgymryd â'r gwaith.	DL
6.2	Hysbysfwrdd newydd wedi cyrraedd, bydd yn cael ei godi bore Sadwrn gan y Cadeirydd a'r gofalwr.	DW/DL- Cwblhau
6.3	Coed Adar wedi symud. Mae'r lleoliad bellach wedi ei lanhau gan y Gofalwr. Bydd archwiliad yn ael ei wneud o'r lleoliad gan Kimberley Gulf.	Archwiliad wedi ei wneud
6.4	Anfoneb am waith ar y neuadd wedi ei dderbyn. Cadarnhawyd bod y gwaith wedi ei gwblhau. Cytunwyd i'w dalu £892.90.	Swyddog Ariannol
6.5	Goriadau newydd wedi eu derbyn cytunwyd i dalu'r gost £20.	Swyddog Ariannol
6.6	Mae gwaith i'w wneud ar sawl drws o fewn y neuadd – y Cadeirydd am gael pris.	DW
6.7	Y Gofalwr wedi gwneud gwaith gynnal a chadw i'r toilet yn y gwaelod.	
6.8	Bydd y Diffib yn cael ei osod yn y dyddiau nesaf ynghyd a'r goleuadau. Dywedodd y Cadeirydd bod fandaliaeth wedi digwydd eto a bod tân wedi ei gynna ger un drws. Y Clerc i	CLERC – wedi ei gwblhau

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	wneud ymholiadau gydag adain Arson Gwasanaeth Tân ag achub Gogledd Cymru.	
6.9	Rhestrwyd bod gwaith pellach i'w wneud yn y neuadd – bocsys storio eitemau'r carnifal yn y storfa, Porch, Llawr, access i hen ystafell boiler y neuadd, mechanical vent gyda heat recovery, goleuadau a soundproofing.	
6.10	Trafodwyd y Neuadd ar y wefan a phenderfynwyd bod angen botwm ar gyfer y neuadd ar dudalen flaen y wefan, prisiau defnyddio'r neuadd yn amlwg, tynnu cyfeiriad y gofalwr oddi ar y wefan.	CLERC – wedi ei gwblhau
7.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
7.1	Diolchwyd i Casi a Sue am eu gwaith gyda chodi'r goeden Nadolig. Gwelwyd bod ffrâm manhole lle'r oedd y goeden yn rhydd. Y Cadeirydd ac Eifion Williams i wneud gwaith cynnal ar y manol, dydd Sadwrn os bydd y tywydd yn caniatáu.	DW/EW
8.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
8.1	C18/1151/20/LL - Dymchwel yr adeilad allanol presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le ynghyd a chodi porth newydd - 6 Y Wern, Y Felinheli LL56 4TX - DIM GWRTHWYNEBIAD ond byddai'r Cyngor yn falch pe bai ystyriaeth yn cael ei roi i gyflwyno lle parcio ychwanegol.	CLERC
8.2	C18/1148/20/LL - Codi ty newydd a waliadu cynnal - Min y Nant, Trem y Foel, Y Felinheli, LL56 4UZ- GWRTHWYNEBIAD - Y Cyngor yn datgan bod y cais yn anaddas oherwydd: Gor ddatblygiad o'r ardal ynghyd a phroblemau llifogydd diweddar a byddai adeiladu yn y lleoliad gyda'r potential i waethygu'r sefyllfa. Byddai adeiladu tŷ ychwanegol yn achosi cynyddu'r traffig fydd yn defnyddio'r gyffordd i'r ffordd sirol.	CLERC
9.0	ADRODDIAD Y FYNWENT	
9.1	Rhodddwyd copïau o'r cytundeb torri gwair y fynwent ynghyd a thorri tyfiant ar lwybrau cyhoeddus y Cyngor er sylw'r aelodau. Penderfynwyd ar yr amserlen bod hysbyseb yn cael ei roi cyn gynted a phosib ar safle facebook a safle we'r Cyngor, posteri yn siopau'r pentref. Ceisiadau i'w gwneud i'r Clerc am wybodaeth a bod tendrau i'w dychwelyd erbyn 4 yn y pwn ar Fawrth y 1af. Penderfyniad y tendr buddugol i'w wneud yng nghyfarfod mis Mawrth 2019.	CLERC – y gytundeb wedi ei hanfon at yr aelodau am sylwadau. Yr hysbyseb wedi ei anfon am sylwadau.
10.0	ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
10.1	Cafwyd gwybodaeth bod car (scrap) yn y Maes Parcio - y Cadeirydd i ddelio a'r mater.	DW – wedi ei gwblhau
11.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANAU A MEINCIAU	
11.1	Gweler 9.1	
11.2	Gobeithir cael amserlen ar waith y ddwy cysgodfan bws yn Aberpwll yn fuan.	CLERC DW
12.0	ADRODDIAD PRIFFYRDD	
12.1	Gweler eitem 2	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

12.2	Gofwynwyd am gadarnhad bod biniau newydd i'w gosod cyn y tywydd garw ynghyd a llenwi'r biniau.	CLERC - Y Gweithlu Cyngor Gwynedd wedi derbyn cyfarwyddiadau i gwblhau y gwaith. wedi derbyn
13.0	PROSIECTAU	
	Nid oedd amser i sicrhau trafodaeth feddylgar a charcus i fater hwn. Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth hyd nes y cyfarfod ym mis Chwefror. Penderfynwyd o hyn allan byddai agenda cyfarfod misol yn cael ei newid bob yn ail i sicrhau bod materion sydd olaf un mis yn cael blaenoriaeth yn y mis canlynol. Bydd cyflwyniadau yn cael eu gwenuid mewn cyfarfodydd arbennig yn y dyfodol. Bydd materion y neuadd yn cael eu trafod mewn cyfarfod isbwyllgor y neuadd ac adroddiad yn unig yn cael ei gymeradwy yn y cyfarfod misol.	
14.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
	Dim i'w adrodd	
15.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
15.1	E-bost wedi ei anfon gan Gyngor Gwynedd at y bragdy i weld beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf.	
16.0	GWEFAN	
16.1	Hyfforddiant gan Delwedd ar y 29 o Ionawr yn y Neuadd.	
16.2	Enw y clerc i fod yn fwy amlwg ar y wefan – Swyddogion i fod ar wahan i'r aelodau	Wedi ei gwblhau
17.0	MATERION AMRYWIOL	
17.1	Cyfarfod cyhoeddus ynglyn a thrafod prosiect Cymunedol i brynu'r Fic. Cadarnhawyd bod y Cyngor Cymuned yn fodlon i dalu am y cyfieithu.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:55	
Llofnod:		Dyddiad: